# Oedfa Ffynhonnau Byw

cymorth cristnogol christian aid

Apêl Cymorth Cristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2023–24

---

**ARWEINYDD:** Croeso i'n hoedfa arbennig i lansio apêl ddiweddaraf Undeb yr Annibynwyr Cymraeg er mwyn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol.

**ARWEINYDD:** Diolchwch i'r Arglwydd!
Mae ef mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!

Gadewch i'r rhai mae'r Arglwydd wedi'u gollwng yn rhydd ddweud hyn,
ie, y rhai sydd wedi'u rhyddhau o afael y gelyn.
Maen nhw'n cael eu casglu o'r gwledydd eraill,
o'r dwyrain, gorllewin, gogledd a de.

**PAWB:** Diolchwn i'r Arglwydd!
Mae ef mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!

**ARWEINYDD:** Roedden nhw'n crwydro ar goll yn yr anialwch gwyllt,
ac yn methu dod o hyd i dre lle gallen nhw fyw.
Roedden nhw eisiau bwyd ac roedd syched arnyn nhw,
ac roedden nhw wedi colli pob egni.
Dyma nhw'n galw ar yr Arglwydd yn eu trybini,
a dyma fe'n eu hachub o'u trafferthion,
ac yn eu harwain nhw'n syth
i le y gallen nhw setlo i lawr ynddo.

**PAWB:** Diolchwn i'r Arglwydd!
Mae ef mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!

**ARWEINYDD:** Gadewch iddyn nhw ddiolch i'r Arglwydd am ei gariad ffyddlon
a'r pethau rhyfeddol mae wedi'u gwneud ar ran pobl!
Mae wedi rhoi diod i'r sychedig,
a bwyd da i'r rhai oedd yn llwgu

**PAWB:** Diolchwn i'r Arglwydd!
Mae ef mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!

## GWEDDÏWN

Dduw pob gobaith, mae dy haelioni yn ddiddiwedd! Ond gwyddom fod cymaint o bobl yn cael eu hamddifadu ohono – pobl wedi'u dal mewn tlodi; pobl heb lais na grym; pobl heb ddiogelwch bwyd a dŵr glân, Pobl heb fynediad i feddyginiaeth nac addysg.

Gwyddom am y systemau sy'n caethiwo, yn gormesu ac yn anffafrio, a'r strwythurau sy'n ynysu, yn niweidio ac yn lladd. Nid yw'n byd yn lle cyfartal na chyfiawn.

Ond diolchwn am gyfle newydd i roi ein ffydd ar waith, a brwydro yn erbyn anghyfiawnder. Yn ystod y flwyddyn hon, bydded i ni gyd-gerdded mewn undod gyda Chymorth Cristnogol a'n brodyr a'n chwiorydd yng Ngholombia ac ar draws y byd.

Ysbrydola ni i chwarae ein rhan yn Apêl Ffynhonnau Byw, er mwyn helpu dwyn gobaith, urddas a llawnder bywyd i bawb yn ein byd. Gofynnwn hyn yn enw Iesu. **Amen.**

**EMYN**: 841 (Agor di ein llygaid Arglwydd ...)

**DARLLENIAD**: ESEIA 35: 1–7

## CREDO O GOLOMBIA

Credwn mewn Duw cariadus,
y mae ei Air yn cynnal ein bywyd
a gwaith ein dwylo yn ei greadigaeth – Bywyd yw Duw.

Credwn yn ei Fab yn ein plith
a ddygodd atom hedyn adnewyddiad bywyd.
Bu fyw gyda'r tlawd i ddangos ystyr cariad – Efe yw'r Arglwydd.

Credwn yn Ysbryd Bywyd,
sy'n ein gwneud yn un â Duw;
y mae ei nerth a'i hegni yn adnewyddu'n hymdrech – Cariad yw'r Ysbryd.

Credwn yn eglwys Dduw
at wasanaeth yr holl bobl,
fel y gwelwn y gwirionedd ar y ddaear – y mae hi'n cludo gair Duw.

Credwn yn y bywyd newydd hwn
y mae'r bara a'r gwin yn ei roi
i ni weithio dros undeb yn Nuw – dyma'n gogoniant.

Credwn yn y bywyd tragwyddol a dyfodol y byd newydd
lle bydd Gair Duw yn wirionedd i bawb
yng Nghrist ein Harglwydd

**FFILM YR APÊL**

(Os yw technoleg yn caniatáu dangoswch ffilm yr Apêl yn y fan yma. Gellir ei lawrlwytho o wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: **annibynwyr.cymru** )

**LLEFARYDD**: Mae'r proffwyd Eseia yn hoff iawn o gyfeirio at yr anialwch. Mae 'anialwch, 'diffeithwch' ac 'anial' yn ymddangos dros 30 o weithiau yn ei broffwydoliaeth.

Wrth gwrs mi roedd yn anialwch yn bresenoldeb real i'r Iddewon, ac yn fygythiad cyson i'w bywyd. Yr odd hefyd yn allweddol i'w hanes fel pobl Dduw. Ond roedd yr anialwch wedi cymryd ystyr newydd yn y cyfnod roedd Eseia yn byw a phroffwydo ynddo. Dyma ddiwedd cyfnod y gaethglud ym Mabilon. Tua 50 mlynedd ynghynt roedd Israel wedi'i choncro. Dinistriwyd Jerwsalem a'r deml. Lladdwyd yr arweinwyr a chludwyd y boblogaeth i gaethiwed ym mhell o'u gwlad, gan esgor ar greisis cenedlaethol, cymdeithasol a chrefyddol. 50 mlynedd o anialwch go iawn! Does dim syndod fod cymaint o broffwydoliaeth Eseia yn cyfeirio ato.

Ond neges gadarnhaol a gobeithiol sydd ganddo yn y darn a ddarllenwyd, ac mae'n gweld yr anialwch fel her sy'n llawn o bosibiliadau a chyfleoedd. Y neges yn syml yw gellir trawsffurfio unrhyw anialwch wrth ymddiried yn Nuw. 'Llawenyched yr anial a'r sychdir, gorfoledded y diffeithwch a blodeuo.'

Mae'n bosibl, trwy nerth Duw i newid pob anialwch. I droi'r 'crastir yn llyn a'r tir sych yn ffynhonnau byw.' Neu yng ngeiriau cyfarwydd eraill o'i broffwydoliaeth, 'paratowch ffordd i'r Arglwydd, unionwch lwybr i'n Duw ni yn y diffeithwch.'

Gwaith pobl Dduw yw newid yr anialwch, i fod yn drawsffurfwyr o bob anialwch y byddwn ni'n dod ar ei thraws mewn bywyd.

**EMYN**: **869** (Meddwl am fyd heb flodeuyn i'w harddu ...)

**LLEFARYDD:** Trawsffurfio'r anialwch yw'r cyfle mai Apêl Ffynhonnau Byw yn ei gynnig i ni. Hon fydd yr 8fed Apêl arbennig i Undeb yr Annibynwyr ei chynnal i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. Ers 1973 mae eglwysi'r Undeb wedi codi bron i filiwn o bunnoedd ar gyfer prosiectau Cymorth Cristnogol, gan helpu pobl yn rhai o wledydd tlotaf ein byd i ddianc o dlodi ac anghyfiawnder.

**LLEFARYDD:** Y tro yma Colombia yn Ne America sydd o dan sylw, un o wledydd mwyaf anghyfartal ein byd. Amcangyfrifir bod 14 miliwn o boblogaeth y wlad yn byw o dan y llinell dlodi (tua £10 yr wythnos), gyda dros 4 miliwn yn byw ar hanner y swm yna. Mae'r wlad hefyd wedi dioddef yn enbyd oherwydd blynyddoedd o wrthdaro a thrais rhwng carfannau gwleidyddol, â'r frwydr waedlyd i reoli'r farchnad cocên. Ond gydag arwyddo cytundeb heddwch yn 2016, mae Colombia yn profi cyfnod cymharol heddychlon ac mae partneriaid Cymorth Cristnogol yno wedi gallu mynd i'r afael â'r anghyfiawnder a'r anghyfartaledd sy'n effeithio ar gymaint o bobl gyffredin y wlad. Mae gwaith pwysig yn cael ei wneud i drawsffurfio'r anialwch yng Ngholombia mewn meysydd fel hawliau merched a phobl frodorol, amaethyddiaeth gynaliadwy, yr amgylchedd a heriau newid hinsawdd a gwarchod systemau eco angenrheidiol.

**LLEFARYDD:** I Eseia mae dŵr yn hanfodol yn y gwaith o drawsffurfio'r anialwch, 'tyr dyfroedd allan yn yr anialwch ac afonydd yn y diffeithwch,' meddai. Byddai pobl frodorol Colombia yn deall hyn yn iawn, oherwydd iddyn nhw, 'Dŵr yw ffynhonnell pob bywyd. Ac oherwydd hyn ni fedrwn ei ddifrodi, ni ddylem ymosod arno. Rhaid i ni warchod natur er mwyn gwarchod dŵr.' Mae gofalu am y ffynhonnau byw, y dŵr naturiol glân a phur, yn holl bwysig. Ond, y mae llawer o'r ffynonellau dŵr traddodiadol o dan fygythiad gan ddiwydiant trwm. Mae'r mwyngloddi sy'n digwydd yn agos atyn nhw yn niweidio cydbwysedd bregus natur ac yn llygru'r dŵr.

**LLEFARYDD:** Diolch i waith un o bartneriaid Cymorth Cristnogol llwyddwyd i ennill achos llys pwysig sy'n gorfodi'r llywodraeth i ddilyn canllawiau gwyddonol pendant cyn rhoi caniatâd i gynlluniau mwyngloddio, ac mae'n rhaid iddynt ymgynghori gyda'r boblogaeth leol cyn caniatáu unrhyw gynllun newydd. Cam bach, ond cam pwysig i ddiogelu iechyd, gwarchod yr amgylchedd a rhoi llais a grym i bobl, sydd yn hanesyddol heb eu gwrando.

**EMYN**: **123** (Glendid maith y cread ...)

**LLEFARYDD:** I Eseia mae trawsffurfio'r anialwch yn golygu bod yr anial a'r sychdir yn cael ei droi'n dir ffrwythlon a lliwgar 'blodeued fel maes o saffrwn,' ac 'yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau a brwyn.' Y tir diffaith yn llawn tyfiant a bywyd.

Mae un o bartneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda ffermwyr bach yn y mynyddoedd i fod yn hunangynhaliol wrth dyfu bwyd. Maen nhw wedi bod yn gweithio gyda merched yn bennaf i hybu dulliau ffermio cynaliadwy gyda llai o bwyslais ar wrtaith cemegol. Y canlyniad yw bod y cnydau wedi cynyddu. Bellach nid jyst digon o fwyd i gynnal y teulu sydd ganddyn nhw, ond hefyd cynnyrch dros ben i'w werthu yn y farchnad sy'n rhoi incwm ychwanegol i'r merched.

**LLEFARYDD:** Rhan bwysig o'r gwaith yma yw annog pobl ifanc i fod yn fwy gweithredol yn gofalu am yr amgylchedd.

Mae Karen, un o arweinwyr mudiad pobl ifanc, yn pwysleisio pwysigrwydd dod i adnabod eu hamgylchedd, 'Rhaid i ni ddysgu adnabod ein coed a'n rhywogaethau cynhenid, a chadw cofnodion ... rydym am blannu hedyn yn ein pobl ifanc, ac rydym am iddynt gymryd gofal a sylweddoli mai dyma yw ein bywyd ni. Cefn gwlad yw ein prif fywoliaeth.' Mae'r gwaith pwysig yma yn amlwg yn llwyddo gan fod nifer o bobl ifanc yn gweithio eu tir eu hunain ac yn tyfu cnydau fel coffi. Medd Karen, 'Mae ganddyn nhw incwm ar gyfer eu hunain eisoes.'

Yn araf bach mae anialwch tlodi ac anghyfiawnder yn cael ei drawsffurfio a chymunedau yn cael eu grymuso i allu cynnal eu hunain drwy ffermio'n gynaliadwy.

**CÂN:** Gellir chwarae'r gân **'Hawl i Fyw'** gan Dafydd Iwan yn y fan yma.

**LLEFARYDD:** Gwelwn fod Eseia yn pwysleisio yr angen i bobl weithio gyda'i gilydd er mwyn trawsffurfio'r anialwch. 'Cadarnhewch y dwylo llesg, cryfhewch y gliniau gwan; dwedwch wrth y pryderus, "Ymgryfhewch, nac ofnwch." Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn annog gweithredu cymunedol wrth fynd i'r afael â'r heriau sydd yn eu hwynebu hwy hefyd. Clywsom yn barod sut mae diwydiant yn llygru'r dŵr a'r tir, a chyfrannu at newid hinsawdd, ond gall diwydiant hefyd fod yn fygythiad i gymunedau a ffordd o fyw traddodiadol.

Yng Ngholombia mae'r gwaith glo brig mwyaf yn America Ladin, sydd wedi bod yn gyfrifol am ddadleoli 1,500 o bobl o'u cartrefi a'u tir. Mae nifer ohonynt yn ddisgynyddion y caethweision a gludwyd o wledydd Affrica i Golombia.

**LLEFARYDD:**Mae ganddynt gyfoeth o hanes a thraddodiadau sydd yn gysylltiedig â'r tir maent wedi byw arno am genedlaethau ond sydd mewn perygl o gael eu colli. Mae cynhaliaeth economaidd sydd ynghlwm â'r tir o dan fygythiad hefyd. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol wedi bod yn cefnogi pobl i warchod eu hanes a'u traddodiadau, cynnal eu hunain yn economaidd ac amddiffyn a chryfhau'r gymuned.

**LLEFARYDD:** Gwelir hyn yng ngwaith Yalenis, trefnydd cymunedol lleol, sydd wedi agor siop yn ei phentref fel nad oes rhaid i bobl deithio pellter i brynu nwyddau. Mae'r siop yn gwerthu cynnyrch lleol, ond gall pobl hefyd wefru eu ffonau symudol yno trwy ynni solar. Mae yna gynlluniau hefyd i wneud lle yno i blant gael gwneud eu gwaith cartref ac i gynnal clinigau iechyd yn achlysurol. Y bwriad yw iddo fod yn hwb cymunedol, lle i bobl ddod at ei gilydd a thrafod. Meddai Yalenis, 'Yn fwy na dim mae'r prosiect yma yn grymuso merched, trwy sgyrsiau a rhannu gwybodaeth, oherwydd yn ein cymuned ni does gan ferched ddim llawer o ddylanwad, a rhaid dechrau newid ychydig ar hynny.' Mae Yalenis yn credu'n angerddol bod rhaid helpu gwragedd i sylweddoli eu gwerth a'u gallu eu hunain. Y neges yw bod 'gwerth cydweithio yn gryfach nag unrhyw beth', ac 'mai'r arf gorau i amddiffyn y diriogaeth yw i weithio fel cymuned. Mae'r bobl wedi profi'r grym a ddaw o ddod at ei gilydd a bod yn unedig.'

**EMYN: 807** (Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de ...)

**ARWEINYDD**: Dyma rhai o'r ffynhonnau byw sy'n dod â bywyd newydd i gymunedau tlawd yng Ngholombia. Bydd ein hapêl yn ni yn caniatau i'r gwaith hwn, a gwaith tebyg ar draws y byd, i barhau. Trwy ein cefnogaeth fe allwn helpu Cymorth Cristnogol i drawsffurfio anialwch tlodi ac anghyfiawnder ac adeiladau byd mwy cyfartal a chyfiawn.

Gadewch i ni fwrw ati felly yn ystod y misoedd nesaf i drefnu ein gweithgareddau i godi arian er mwyn gwneud Apêl Ffynhonnau Byw yn llwyddiant. Am fwy o fanylion am yr Apêl ynghyd ag adnoddau a syniadau am bethau i'w gwneud, ewch i: **annibynwyr.cymru**

## GWEDDÏWN WEDDI'R APÊL I ORFFEN EIN HOEDFA

**Dduw Cariad,**

ym mhob cenhedlaeth dangosaist dy hun fel un sy'n cofio'r tlawd a'r newynog, yn amddiffyn y bregus a'r gwan, ac yn anrhydeddu'r rhai hynny sy'n 'neb'.
Ac ym mhob oes gwahoddaist rai i ymuno â thi yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder a heddwch, urddas a chydraddoldeb i bawb.
Diolch am y cyfle newydd hwn i ymuno gyda Chymorth Cristnogol a'i phartneriaid a chefnogi'r ymdrech dros gyfiawnder, yng Ngholombia ac ar draws y byd.
Dduw Cariad, drwy ein hapêl, Ffynhonnau Byw, heria ni yn ein dewisiadau ffôl a'n ffordd o fyw barus heddiw, a helpa ni i gwestiynu'r hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed nawr.
Tra byddwn ni'n gwneud ein dewisiadau hunanol bob dydd i brynu ein moethbethau,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u dewisiadau sylfaenol wedi eu cymryd oddi wrthynt.
Tra byddwn ni'n llusgo'n traed ynglŷn â'n defnydd o danwydd ffosil,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u cartrefi yn cael eu sgubo ymaith gan lifogydd a'u tir yn llosgi gan sychder.
Tra byddwn ni'n anghytuno am sut orau i warchod yr amgylchedd,
yr wyt ti'n gweld y rhywogaethau sy'n diflannu a'r cymunedau sy'n cael eu dadleoli.

Tra byddwn ni'n codi ein llais dros ein hawl i wneud yr hyn a fynnwn,
yr wyt ti'n gweld y rhai sy'n cael eu bygwth a'u lladd am siarad dros bobl heb lais.
Tra byddwn ni'n dadlau am werth cyfiawnder rhywedd,
yr wyt ti'n gweld y gwragedd sy'n cael eu gwahardd rhag perchen tir.
Tra byddwn ni'n chwilio am yr addysg orau i'n plant,
yr wyt ti'n gweld y rhai na fydd byth yn goroesi plentyndod.
Dduw Cariad, bydded i'n hapêl, Ffynhonnau Byw, agor ein llygaid a'n clustiau
i weld y byd yr wyt ti yn ei weld a chlywed y lleisiau yr wyt ti yn eu clywed.
I sefyll mewn undod gyda chymunedau yng Ngholombia ac o amgylch y byd,
i ymateb i'w hangen, a gwrando ar eu dyheadau am gyfiawnder,
i rannu eu dicter a'u gobeithion,
i ymddiried ynddynt a chydweithio gyda hwy dros yfory gwell,
gan helpu dwyn y greadigaeth gyfan i undod yng Nghrist.

**Amen**

**NODIADAU**

- Cofiwch dorri'r oedfa i siwtio'r adnoddau a'r bobl sydd gyda chi.

- Os oes gennych offer technolegol yn y capel/festri, beth am chwilio am ychydig o luniau addas i'w dangos ar grin yn ystod yr oedfa.

- Camilo Torres, offeiriad yn yr Eglwys Gatholig yng Ngholombia yw awdur y Credo, ac fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Jeff Williams.

- Mae'r delynores, Catrin Finch, wedi cyhoeddi CD gyda Cimmaron, grŵp cerddorol o Golombia, o dan y teitl – Catrin Finch & Cimmaron Live/Yn Byw. Mae'n cynnwys caneuon traddodiadol o'r ddwy wlad. Buont ar daith gyda'i gilydd o gwmpas Cymru yn ystod yr haf. Chwiliwch am gopi o'r CD neu ffrydio un o'r caneuon o'r gwasanaethau ffrydio er mwyn ei chwarae yn yr oedfa.

- Mae'r Undeb wedi paratoi ffilm fer ar daith Catrin Finch a Cimmaron, 'Canu o Golombia i Gymru'. Gellir ei lawrlwytho a'i ddefnyddio yn yr oedfa.